Tai Amlfeddiannaeth (TA) a Deddf Tai 2004

HYSBYSIAD CYHOEDDUS YNGHYLCH Y CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL
CYFLWYNO CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL YN WARD CYMUNEDOL CATHAYS YNG NGHAERDYDD

Hysbysiad

Rhoddir hysbysiad drwy hyn bod Cyngor Caerdydd wedi cadarnhau dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth yn ward cymunedol Cathays Cyngor Caerdydd. Enw'r cynllun fydd (Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth Cyngor Caerdydd 2010) ("Y Cynllun"). Mae cadarnhau'r dynodiad yn unol ag Adrannau 56 i 60 o Ddeddf Tai 2004 ("Y Ddeddf) a rheoliad 9 o Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaeth Amrywiol) (Cymru) 2006.

Gwnaethpwyd y dynodiad yng Nghyfarfod Busnes Gweithrediaeth y Cyngor ar 4 Mawrth 2010. Mae Deddf Tai 2004 (Trwyddedu Ychwanegol TA) (Cymru) Cymeradwyaeth Gyffredinol 2007, a ddaeth i rym ar 13 Mawrth 2007 yn gymwys i'r dynodiad hwn.

Bydd y Cynllun yn weithredol o 1 Gorffennaf 2010 ac oni dirymir ef cyn hynny bydd yn peidio â bod mewn gweithrediad ar 1 Gorffennaf 2015. Mae'r cynllun yn gymwys ar bob Tŷ Amlfeddiannaeth (TA) yn yr ardal a ddisgrifir uchod heblaw am y rheiny a eithrir gan adrannau perthnasol y Ddeddf.

Dylai unrhyw landlord, person sy'n rheoli neu denant o fewn y Ddinas ofyn am gyngor gan Wasanaeth Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd (Tai'r Sector Preifat) Cyngor Caerdydd ynglŷn â pha eiddo yr effeithir arno gan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol Ward Cymunedol Cathays.

Bydd rhaid i berson sydd â rheolaeth dros, neu sy'n rheoli, TA ymgeisio am drwydded gan Gyngor Caerdydd.

Mae methu ag ymgeisio am drwydded yn drosedd o dan Adran 72(1) o Ddeddf Tai 2004 a gellir dirwyo person hyd at £20,000. Yn ychwanegol efallai y bydd gofyn i chi ad-dalu hyd at 12 mis o rent a gasglwyd yn ystod y cyfnod yr oedd yr eiddo heb drwydded.

Cyn i gais gael ei ystyried rhaid iddo ddarparu manylion penodol a rhaid i'r ffi angenrheidiol fod ynghlwm wrtho. I ofyn am ffurflen gais yn ysgrifenedig, cysylltwch â Tai Sector Preifat, Cyngor Caerdydd, Ystafell 134, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 3ND neu drwy ffonio 029 20 87 1762 neu drwy e-bost ar PrivateSectorHousing@caerdydd.gov.uk

Mae copi o'r Cynllun ar gael i'w archwilio yn Nerbynfa, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y cyngor ar www.caerdydd.gov.uk/rhentpreifat